

**Cofnodion Cyngor Cymuned Llangywer  
21/6/2021**

**Preseanol:** Geraint Roberts, (Cadeirydd), Clwyd Davies (Is-gadeirydd), Eleri Jones, Gwyn Roberts, W D Williams, Lis Puw (Clerc)

1. Croesawyd pawb gan y Cadeirydd a fynegodd mor braf oedd cael cyfarfod wyneb yn wyneb, er dal o dan amodau Covid. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Tyly Roberts a'r Cynghorydd Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd). Cytunwyd i anfon dymuniadau am adferiad iechyd buan i'r Cynghorydd Alan Jones Evans.
2. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. Nid oedd datganiadau o fuddiant.
4. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion 10 Mai 2021.
5. Materion y Clerc:
  - i. Bioamrywiaeth yn y fynwent: cynhaliwyd pwnn braf i'r cyhoedd o dan arweiniad Anna Williams o Ymddiriedolaeth Bywyd gwyllt Gogledd Cymru yn gwneud arolwg o blanhigion a phryfed. Cynhelir sesiwn hyfforddiant pladuro tua 24/25 Gorffennaf ac fe fydd hwn hefyd yn agored i'r cyhoedd.
  - ii. Dywedodd y Clerc y byddai'n anfon eto i'r cwmni parthed cofnodi'r diffibs.
  - iii. Diogelwch cronfa dŵr Llyn Tegid: adroddodd y Clerc iddi dderbyn sicrwydd ar goedd gan Reolwr Prosiect Cyfoeth Naturiol Cymru nad oedd unrhyw fwriad i godi uchder y morglawdd, dim ond ei gryfhau. Ni fyddai lefel y llyn yn codi o ganlyniad i'r gwaith hwn.
  - iv. Yn ystod trafodaeth gyffredinol, mynegodd y Cynghorwyr yr awydd i gydweithio a chyd-gyfarfod a Chyngor Cymuned Llanuwchllyn. Dywedodd y Clerc y byddai'n trafod gyda Llanuwchllyn.
6. Adroddiad Cyngor Gwynedd -nid oedd y Cynghorydd yn gallu bod yn bresennol.
7. Materion Ariannol:
  - a. Derbyniwyd Adroddiad yr Archwilydd Mewnol a diolchwyd am y gwaith a wnaed o archwilio cyfrifon y Cyngor.
  - b. Cymeradwywyd y Ffurflen Flynyddol gan gynnwys y Datganiadau Cyfrifyddu a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer Cyngor Cymuned Llangywer am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31/3/20. Cytunwyd i gymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol i sylw Archwilydd Cymru.
  - c. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf.

d. Cytunwyd i dalu anfoneb C Ellis - £500. Nodwyd derbyn £125 (Ffioedd y fynwent).

8. Gohebiaeth

- i. Derbyniwyd ymateb Phillip Hobson i lythyr y Cyngor at CADW parthed Eglwys Santes Gwawr yn mynegi ei fod wedi gofyn i Arwel Thomas, Parc Cenedlaethol Eryri ymweld ac adrodd iddo. Derbyniwyd neges ganddo yntau yn dweud ei fod wedi ymweld a thynnu lluniau, ond nid oeddent wedi eu trosglwyddo i Phillip Hobson oherwydd anawsterau technegol.
- ii. Derbyniwyd gwybodaeth am drefniadau Triathlon Y Bala (5/9/21)

9. Materion y Cynghorwyr:

Llangywer:

- i. Parcio ar y ffordd: cytunodd y Clerc i anfon at Gyngor Gwynedd yn mynegi fod cerbydau twristiaid wrth faes parcio Llangywer ac wrth orsaf Y Bala yn ei gwneud yn anodd i geir yrru ar hyd y ffordd.
- ii. Goryrru ar hyd ffordd Llangywer ac yn y pentref: cafwyd esiampl o hyn wrth i'r Cyngor drafod y mater (ac fe barciodd y campervan ar ochr y ffordd). Dywedodd y Clerc y byddai'n holi am y camera a addawyd gan Gyngor Gwynedd .
- iii. Trên bach yn croesi'r ffordd: dywedodd y Clerc y byddai'n holi am hyn yn ystod cyfarfod gyda Mr Julian Brierly yng Nghyngor Tref Y Bala.
- iv. Safle Biniâu yn Llangywer: llanast yno yn syth ar ôl ei glirio gan gynnwys gwastraff adeiladu. Dywedodd y Clerc y byddai'n tynnu sylw Cyngor Gwynedd ac yn gofyn am fodd o gloi'r safle.

Rhosygwaliau:

- v. Dywedwyd bod angen torri'r coed wrth bont Rhosygwaliau er mwyn diogelwch a gwella gwelededd.
- vi. Mae angen torri'r gwair wrth y gyffordd a ffordd Bala - Llangynog ar riw Tŷ'n Gwrych - eto er mwyn diogelwch a gwelededd.
- vii. Mae nifer o ymwelwyr yn dod i'r pentref ac yn aflonyddu ar y trigolion bob awr o'r dydd a'r nos wrth iddynt chwilio am safle gwyliau Pen y Garth. Dywedodd y Clerc y byddai'n tynnu sylw'r perchnogion at y broblem hon.
- viii. Mae'r lorïau trymion yn cario coed yn achosi difrod i sylfeini tai wrth ochr y ffordd yn y pentref. Mae angen i Gyngor Gwynedd lenwi lle mae'r ffordd wedi suddo wrth y tai.
- ix. Tynnir sylw Cyfoeth Naturiol Cymru a Cadw yn y Parc Cenedlaethol fod pont Rhosygwaliau wedi ei chofrestru gan Cadw a bod y llwythi coed sy'n tramwyo'n gyson drosti yn debygol o fod yn rhy drwm i adeiladwaith y bont.

10. Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: Medi 6ed 2021 yn y Neuadd Bentref, Llangywer

Amser gorffen: 9.15pm